| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Mai 2013** |
| **Aelod sy'n cyflwyno:** | **Cynghorydd Colin Hughes** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio/ Cydlynydd Archwilio a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio i'r Cyngor ar gyfer 2012/13.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I gyflwyno adroddiad blynyddol am weithgareddau'r Pwyllgorau Archwilio yn 2012/13 i'r Cyngor.

2.2 I gydymffurfio ag Erthygl 6.3.7 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n amodi bod yn rhaid i'r pwyllgorau archwilio adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn am eu gwaith a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith i'r dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yw'n berthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio ar gyfer 2012/13 ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn amodi y bydd pwyllgorau archwilio'r Awdurdod yn adrodd yn flynyddol am eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor Sir.

4.2 Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (SCVCG) am gael yr Adroddiad Blynyddol eleni mewn fformat byrrach na'r blynyddoedd blaenorol, fel y gall y trigolion, yr aelodau a'r swyddogion gael trosolwg byr o sut y mae'r swyddogaeth archwilio yn gweithredu, y gwaith a wnaed gan bwyllgorau archwilio, a sut y gall trigolion gyfranogi at y broses archwilio. Mae crynodeb o'r argymhellion a wnaed gan bob un o'r tri phwyllgor archwilio, ac enghraifft o astudiaeth achos i ddangos sut y mae rhai materion wedi'u harchwilio, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

4.3 Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r Adroddiad Blynyddol wedi cynnwys ffurflen sy'n galluogi'r cyhoedd gynnig meysydd neu wasanaethau i'w hystyried gan archwilio. Y rheswm dros gynnwys y ffurflen hon oedd ennyn diddordeb gan y cyhoedd a gwella eu cyswllt gydag archwilio, agwedd y mae'r mwyafrif o

awdurdodau lleol yn parhau i gael trafferth ag ef. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llond llaw o drigolion wedi cysylltu ag archwilio i gynnig eitemau oedd yn eu barn nhw yn haeddu eu harchwilio. Gan y bydd cyswllt â'r cyhoedd yn ffurfio rhan bwysig o archwilio yn y dyfodol, yn unol â darpariaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r ffurflen hon wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol unwaith eto eleni fel dull y gall y cyhoedd ei ddefnyddio i gysylltu ag archwilio. Mae manylion sut y gall y trigolion godi materion a/neu gymryd rhan yn y broses archwilio wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad.

Hunanwerthuso

4.4 Yn y blynyddoedd diwethaf roedd yr SCVCG yn cynnal ymarfer hunanwerthuso er mwyn mesur effeithiolrwydd swyddogaeth archwilio'r Cyngor. Diben yr ymarfer hwn oedd canfod mannau gwan a llunio mesurau i geisio eu datrys. Ond gan fod Sir Ddinbych, fel yr holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru eleni, yn cymryd rhan yn yr Astudiaeth Gwella Craffu a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) penderfynwyd na fyddai cynnal hunanwerthusiad arall er diben yr Adroddiad Blynyddol yn ddefnydd da o adnoddau.

Astudiaeth Gwella Craffu Swyddfa Archwilio Cymru

4.5 Dechreuodd Astudiaeth Gwella Craffu'r WAO – 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' - yn niwedd haf 2012. Yn ystod tymor yr hydref 2012 roedd yn rhaid i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru gwblhau ymarfer hunanwerthuso ac asesu eu hunain yn erbyn 27 cwestiwn. Roedd y cwestiynau hyn wedi'u rhannu'n dri chategori gwahanol yn delio â'r amgylchedd y mae craffu/archwilio yn gweithredu ynddo, arferion craffu/archwilio ac effaith craffu/archwilio yn fewnol yn y Cyngor ac yn allanol. Roedd yn rhaid dyfarnu pob cwestiwn gan nodi a oedd trefniadau craffu/archwilio'r Cyngor yn 'rhwystro', yn darparu 'cefnogaeth rhannol, 'cefnogaeth bositif neu 'gefnogaeth sylweddol' i graffu/archwilio effeithiol. Cadarnhaodd ein hunanwerthusiad ni bod trefniadau craffu/archwilio'r Cyngor yn gyffredinol yn darparu 'cefnogaeth bositif' i graffu/archwilio effeithiol. Roedd rhai cwestiynau yn cael eu dyfarnu fel 'darparu cefnogaeth sylweddol i graffu/archwilio effeithiol' a rhai yn 'darparu cefnogaeth rhannol i graffu/archwilio effeithiol'. Nid oedd unrhyw un yn 'rhwystro'. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau derbyn dyfarniad o ddarparu 'cefnogaeth bositif'. Dyma hefyd oedd y dyfarniad ar y tri chategori unigol.

4.6 Mae Astudiaeth y WAO wedi'i rhannu'n chwe cham. Yng Ngham 4 o'r Astudiaeth, roedd Tîm Cyfnewid Dysgu gan Gymheiriaid (PLET), wedi'i ffurfio gan aelodau a swyddogion etholedig o awdurdod lleol arall, yn arsyllu dau gyfarfod craffu/archwilio a chyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu/archwilio cyn cwblhau holiadur asesu'r un peth ar weithrediad craffu/archwilio'r awdurdod. Roedd gan bob PLET fynediad at hunan-werthusiad yr awdurdod yr oeddent ei werthuso. Gwnaed asesiad cymheiriaid Sir Ddinbych gan Gyngor Sir y Fflint. Roedd tîm PLET o Sir Ddinbych yn gwneud asesiad cymheiriaid ar swyddogaeth craffu/archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

4.7 Rydym bellach yng Ngham 5 yr Astudiaeth. Rhoddwyd adborth i'r awdurdodau am ganfyddiadau cychwynnol asesiadau timau PLET Gogledd

Cymru mewn gweithdy ar 29 Ebrill. Mae’n deg dweud bod asesiad Sir y Fflint o'n trefniadau craffu/archwilio fel y nodwyd yn y gweithdy yn adlewyrchu ein dyfarniad cyffredinol ni, bod ein trefniadau yn darparu 'cefnogaeth bositif' i graffu/archwilio effeithiol. Er bod eu dyfarniadau ar rai o'r cwestiynau yn wahanol i'n rhai ni, roeddent hefyd yn cadarnhau bod rhai o'n trefniadau'n darparu 'cefnogaeth sylweddol' i graffu/archwilio effeithiol ac nid oedd unrhyw drefniant yn 'rhwystro' gwaith craffu/archwilio. I gwblhau Cam 5 yr Astudiaeth gofynwyd i PLET Sir Ddinbych gwblhau hunanasesiad arall ac wrth wneud hynny bydd y Tîm yn ystyried ei hunanasesiad cyntaf ac asesiad cyfoedion Sir y Fflint. Yn ogystal â hyn, bydd yn rhaid llunio cynllun gweithredu yn nodi sut yr ydym am fynd i'r afael â'r meysydd y gallai elwa o gael eu cryfhau. Bydd y Cynllun Gweithredu’n cael ei gyflwyno i’r SCVCG i’w ystyried a'i gymeradwyo cyn ei weithredu.

4.8 Bydd Astudiaeth y WAO yn dod i ben drwy gyhoeddi adroddiad cryno cenedlaethol yn hydref 2013. Bydd yn amlygu’r ardaloedd o arferion da ledled Cymru a bydd awdurdodau lleol yn gallu ei ddefnyddio fel dogfen gyfeiriol yn y dyfodol.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

4.9 Mae Rhan 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyflwyno nifer o bwerau a dyletswyddau ar bwyllgorau archwilio awdurdodau lleol. Y prif ddyletswyddau a phwerau sy'n effeithio archwilio yw:

- **dyletswydd** i ymgynghori â’r dinasyddion ac ystyried eu barn am faterion polisi mawr;
- **dyletswydd** i gyhoeddi rhaglenni gwaith i’r dyfodol pwyllgorau archwilio’r Cyngor; a
- **dyletswydd** i Weithredwyr y Cyngor i ymateb i’r adroddiadau a’r argymhellion a wnaed gan y pwyllgorau archwilio
- **dyletswydd** i archwilio mudiadau eraill sy’n darparu gwasanaeth cyhoeddus i drigolion yr ardal.
- **pŵer** i sefydlu pwyllgorau craffu/archwilio ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill;
- **pŵer** i gyfethol rhai nad ydynt yn aelodau o’r Cyngor fel aelodau o bwyllgorau craffu/archwilio awdurdodau lleol.

Bydd Cynghorwyr yn ystyried adroddiad ar Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, a’r cynnydd gyda'i weithrediad hyd yn hyn, yn gynharach ar raglen y cyfarfod presennol. Er bod rheoliadau a chanllawiau drafft ar gael mewn perthynas â sefydlu trefniadau craffu/archwilio ar y cyd, nid yw'r rheoliadau a chanllawiau drafft mewn perthynas â pha fudiadau allanol sy'n darparu gwasanaethau i drigolion lleol y gall y Cyngor gymell i ymgysylltu â chraffu/archwilio wedi'u darparu eto (cyfeirir at y mudiadau hyn fel 'pobl benodedig' yn y Mesur). Nes y bydd Rheoliadau o’r fath wedi’u cymeradwyo a bod dogfennau Canllawiau terfynol ar gael ni fydd archwilio yn gallu defnyddio unrhyw un o’r dyletswyddau na’r pwerau a roed iddynt.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor ddarparu y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae cyhoeddi yr Adroddiad Blynyddol yn ffurfio rhan o ddarparieth adroddiadau pwyllgor rheolaidd sy’n cael eu hanfon i’r cynghorwyr sir a derbynwyr eraill, felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol wrth ei gyhoeddi. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei ddosbarthu i fannau'r Cyngor megis llyfrgelloedd, Siopau Un Alwad, canolfannau hamdden a chynghorau tref a chymuned, gyda fersiwn electronig yn cael ei hanfon i holl gynghorau ysgol y Sir. Bydd ar gael ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor hefyd.

6.2 Bydd unrhyw gostau a geir mewn perthynas â'r pwerau newydd a roed i bwyllgorau archwilio gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael ei ariannu o gyllideb bresennol y Cyngor ar gyfer costau democrataidd. Bydd unrhyw gostau a gyfyd o gynnal pwyllgorau craffu/archwilio ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill yn cael eu trafod gyda’r awdurdod lleol perthnasol a’u cynnwys yn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Dylai archwilio effeithiol o bolisïau, dulliau gweithredu a phenderfyniadau’r Cyngor liniaru’r risg o unrhyw effaith gwrthwynebus ar bobl sy’n rhannu nodweddion wedi’u diogelu.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae Aelodau o Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio wedi bod yn rhan o ddrafftio’r Adroddiad Blynyddol ac ymgynghorwyd â hwy am ei gynnwys.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i’r adroddiad hwn. Fel y nodwyd ym mharagraff 6 uchod bydd unrhyw gostau yn ymwneud â chynhyrchu’r Adroddiad yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau presennol a bydd unrhyw gost wrth sefydlu pwyllgorau craffu/archwilio ar y cyd yn amodol ar drafodaethau rhwng yr awdurdodau perthnasol.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Ni chanfuwyd unrhyw risg mewn perthynas ag ystyriaeth Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amodi bod yn rhai i bwyllgorau archwilio’r Cyngor adrodd yn flynyddol i’r Cyngor ynglŷn â’u gweithgareddau.

**Swyddog Cyswllt:**
Y Cydlynydd Archwilio Ffôn: 01824 712554